



BAGLORIAETH CYMRU

Uwch

Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
Cyfoeth Naturiol Cymru
Rheoli Adnoddau Naturiol yn
Gynaliadwy



Ar gael i'w asesu o fis Mai 2017

Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

DIBEN

Diben yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yw datblygu sgiliau dysgwyr, wrth ddarparu cyfleoedd iddynt ddeall materion byd-eang ac ymateb yn briodol iddynt. Fel rhan o'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang, bydd y dysgwyr yn meithrin sgiliau penodol ym maes **Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, Creadigedd ac Arloesi a Llythrennedd** ac yn eu defnyddio mewn modd priodol.

BRIFF

Diben **Cyfoeth Naturiol Cymru** yw sicrhau yn ei holl waith bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal yn gynaliadwy. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru, a darparu gwell dyfodol i bawb.

Pan fydd adnoddau naturiol yn ffynnu, bydd cymdeithas a'r economi yn ffynnu hefyd. Mae adnoddau naturiol Cymru yn darparu nifer o fanteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i ni. Mae adnoddau naturiol ac ecosystemau yn gallu ein helpu i leihau llifogydd, gwella ansawdd yr aer a darparu deunyddiau ar gyfer adeiladu. Maent hefyd yn darparu cartref i amrywiaeth o fywyd gwylt, ac yn rhoi tirweddau eiconig i ni eu mwynhau, sydd hefyd yn hybu'r economi drwy dwristiaeth. Fodd bynnag, mae ein hadnoddau naturiol yn dod o dan bwysau cynyddol - o newid yn yr hinsawdd, poblogaeth sy'n tyfu a'r angen i gynhyrchu egni, a hynny'n arwain at risgiau a bygythiadau i lesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd hirdymor.



Mae Cymru yn wynebu llawer o heriau: sicrhau egni carbon isel a darparu egni, creu swyddi ac incwm, mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, llifogydd a sychder, a gwella iechyd pobl.

Mae'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yn rhoi cyfle i chi ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o **reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer cynhyrchu egni** a datblygu dealltwriaeth o'r her a wynebir ledled y byd wrth fynd i'r afael â'r mater hwn. Drwy ddatgloi'r potensial sy'n gorwedd o fewn adnoddau naturiol Cymru, a'u rheoli a'u defnyddio mewn ffordd sy'n fwy cydgysylltiedig, gallant ein helpu i wynebu'r heriau sydd o'n blaenau. Byddwch yn datblygu ac yn cefnogi dadleuon, safbwyntiau neu bersbectif penodol ar y mater byd-eang i lunio eich **Safbwynt Personol**.

Os am ganfod atebion ymarferol, mae'n hanfodol rhannu eich syniadau ynghylch ffyrdd y gellir gweithredu drwy ymgysylltu ag eraill. Mae'r Her yn darparu cyfle i chi hyrwyddo eich syniadau personol o atebion a strategaethau i fynd i'r afael â **rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy** mewn Cynhadledd Dewisiadau Byd-eang.

Dyma fydd ffocws y Gynhadledd Dewisiadau Byd-eang y byddwch yn cyfrannu ati:

“Mae adnoddau naturiol ac ecosystemau sy'n cael eu rheoli'n wael yn cynyddu'r risgiau tymor hir i'n llesiant. Beth yw'r cyfleoedd ar gyfer gwella rheolaeth ar adnoddau naturiol yng Nghymru er mwyn i ni fod yn gallu mynd i'r afael â'r heriau hyn yn well?”

Dylech gyfleu eich neges mewn modd creadigol ac arloesol er mwyn ymgysylltu â'r gynulleidfa a'u hannog i feddwl ac ymddwyn fel dinasyddion byd-eang. Bydd y sgiliau y byddwch yn eu datblygu yn yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yn rhoi'r gallu a'r hyder i chi fod yn ddinesydd byd-eang gweithgar, sy'n barod i wneud gwahaniaeth positif yn y byd.

ADNODDAU

<https://naturalresources.wales/splash?orig=/>

MANYLION CYSWLLT

E-bost: education@naturalresourceswales.gov.uk

© WJEC CBAC Ltd.

Gwefan: www.naturalresources.wales

AGAW12